Atodiad A

ARCHDIOCESE of CARDIFF
ARCHESGOBAETH CAERDYDD

# Ymgynghoriad ar y cynnig i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn a chynyddu ei gapasiti o 813 lle i 1,050 o leoedd o Medi 2025



*Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille. Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.*

# TABL CYNNWYS


**Rhestr Tablau** ..... 3

**Eglurhad o dermau yn y ddogfen hon** ..... 4

**1. Cyflwyniad** ..... 1

1.1. Cefndir ..... 1

1.2. Y cynnig ..... 2

**2. Y Cynnig** ..... 3

2.1. Trosolwg ..... 3

2.2. Beth y byddai hyn yn ei olygu? ..... 3

Dalgylch ..... 4

2.3. Pam Rydyn ni'n Cynnig y Newidiadau? ..... 4

CYFLWR AC ADDASRWYDD YR ADEILAD ..... 4

**3. Goblygiadau'r Cynnig** ..... 5

3.1. Gwybodaeth am yr Ysgol ..... 5

3.2. Canlyniadau addysgol ..... 11

Adroddiad Estyn ..... 11

Arolygu addysg enwadol ..... 12

3.3. Effaith Arfaethedig ar Ddeilliannau Addysgol ..... 14

Safonau a chynnydd ..... 14

Llesiant ac agweddau at ddysgu ..... 15

Profiadau dysgu ac addysgu ..... 15

Gofal, cymorth ac arweiniad ..... 16

Arwain a rheoli ..... 17

3.4. Darpariaeth Gymraeg ..... 17

3.5. Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ..... 17

3.6. Effaith ar ysgolion eraill ..... 18

3.7. Tir ac Adeiladau ..... 18

3.8. Cyllid ..... 19

Cyllid Cyfalaf ..... 19

Cyllid Refeniw ..... 19

3.9. Adnoddau Dynol ..... 20

3.10. Trafnidiaeth a threfniadau teithio i ddysgwyr ..... 20

**4. Ystyriaethau Eraill** ..... 21

4.1. Manteision posibl y cynnig hwn o'i gymharu â'r status quo ..... 21

4.2. Anfanteision posibl y cynnig hwn o'i gymharu â'r status quo ........ 21
4.3. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ........ 22
4.4. Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned ........ 22
4.5. Cyfraniadau i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ........ 22
4.6. Dewisiadau Amgen Eraill a Ystyriwyd ........ 23
Opsiwn 1: Ystyried symud yr ysgol i safle arall ........ 23
Opsiwn 2: ailfodelu'r adeilad presennol ........ 23
Opsiwn 3: Cynnal y Statws Quo ........ 23
**5. Opsiwn 2: ailfodelu'r Broses Ymgynghori Statudol ........ 24**
5.1. Dyddiadau Allweddol ........ 25
**6. Cwestiynau Cyffredin ........ 27**
**7. Cynnwys Rhanddeiliaid ac Ymateb i'r Ymgynghoriad ........ 28**
7.1. Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad ........ 28
7.2. Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff - sut y gallwch ddarganfod mwy a rhoi eich barn29
7.3. Sut Mae Cael Mwy o Wybodaeth a Rhoi Eich Barn ........ 31
Canfod mwy ........ 31
Rhowch eich barn i ni ........ 31
**8. Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad ........ 33**
**9. Ffurflen Monitro Cydraddoldeb Bro Morgannwg ........ 38**

## RHESTR TABLAU

TABL 1: GWYBODAETH YSGOL SANT RICHARD GWYN ........ 5
TABL 2: AMCANESTYNIAD NIFER AR Y GOFRESTR YSGOL UWCHRADD GATHOLIG ST RICHARD GWYN ........ 6
TABL 3: GWYBODAETH YSGOLION CYNRADD YSGOLION A BWYDO CYFAGOS ........ 6
Tabl 4: Gwybodaeth am ADY ar gyfer Sant Richard Gwyn ........ 18
Tabl 5: Adroddiad Cyflwr Sant Richard Gwyn 2022 ........ 18
Tabl 6: Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol ........ 24
Tabl 7: Dyddiadau allweddol y broses ........ 25
Tabl 8: Rhestr o'r grwpiau i ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses ymgynghori ........ 28
Tabl 9: Digwyddiadau Ymgysylltu yr Ymgynghoriad: ........ 30

# EGLURHAD O DERMAU YN Y DDOGFEN HON

**‘ND’** (Nifer Derbyn) – rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn disgyblion hyd at y nifer derbyn cyhoeddedig. Y Nifer Derbyn yw nifer y llefydd sydd ar gael i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.

**‘ADY’** (Anghenion Dysgu Ychwanegol) - Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (pa un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

**'Capasiti'** - Capasiti ysgol yw cyfanswm nifer y lleoedd i ddisgyblion oed statudol sydd ar gael; nid yw'n cynnwys lleoedd meithrin.

**'Dalgylch'** - Yr ardal ddaearyddol y mae’n rhaid byw ynddi er mwyn mynychu’r ysgol leol. Bydd plant dalgylch bob amser yn cael blaenoriaeth dros geisiadau o'r tu allan i'r dalgylch ond nid oes sicrwydd y bydd unrhyw blentyn yn cael ei dderbyn i'w ddewis ysgol.

**'Cymuned'** - Math o ysgol a ariennir gan y wladwriaeth lle mae'r awdurdod addysg lleol yn cyflogi staff yr ysgol, yn gyfrifol am dderbyn disgyblion i’r ysgol, ac yn berchen ar ystâd yr ysgol.

**'Enwadol'** - Ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig e.e. yr Eglwys yng Nghymru.

**'DC'** (Deddf Cydraddoldeb) - Mae'r Ddeddf yn ymdrin â phob agwedd ar fywyd ysgol sy'n ymwneud â sut mae ysgol yn trin disgyblion a darpar ddisgyblion, rhieni a gofalwyr, gweithwyr ac aelodau o'r gymuned. Rhaid i bopeth y mae ysgol yn ei wneud fod yn deg, heb wahaniaethu, a heb roi unigolion neu grwpiau o bobl dan anfantais. Yn benodol, ni ddylai ysgol wahaniaethu, aflonyddu nac erlid disgybl neu ddarpar ddisgybl o ran y canlynol: derbyn i’r ysgol, y ffordd y mae'n darparu addysg i ddisgyblion, sut mae'n rhoi mynediad i ddisgyblion at unrhyw fuddion, cyfleuster, neu wasanaeth, a pheidio â chynnwys disgybl neu ei roi dan unrhyw anfantais arall.

**'AEG'** (Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) - proses yw AEG sydd wedi'i chynllunio i sicrhau nad yw polisi, prosiect neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grwpiau gwarchodedig.

**'CS'** (Cyfrwng Saesneg) – Ysgol lle mae’r addysgu a’r dysgu yn digwydd yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg.

**'ALl'** (Awdurdod Lleol) - Yn y ddogfen hon, Cyngor Bro Morgannwg yw’r Awdurdod Lleol oni nodir yn wahanol.

**'NAG'** (Nifer ar y Gofrestr) - Nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol. Nid yw hynny’n cynnwys lleoedd yn y dosbarth meithrin.

**‘CYBLD’** (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion) - Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae ysgolion yn casglu gwybodaeth wedi’i dilysu ac yn ei hanfon i Lywodraeth Cymru. Mae hon yn cynnwys nifer y disgyblion wedi’u cofrestru ymhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref,

ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, mamiaith a disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim.

**'GY'** (Gweithredu Ysgol) - Pan fydd athro dosbarth neu bwnc yn nodi bod gan ddisgybl ADY, bydd yn darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol.

**'GY+'** (Gweithredu Ysgol +) - Dyma pan fydd arbenigwyr allanol yn darparu cyngor neu gymorth i athrawon dosbarth neu bwnc a'r Cydlynydd ADY, fel y gellir rhoi ymyriadau amgen ychwanegol neu wahanol i'r rhai a ddarperir i'r disgybl drwy GY yn eu lle.

**'Adran 106'** - Gofynnir am gyfraniad Adran 106 gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn adeiladu datblygiad tai, tuag at gostau darparu seilwaith cymunedol a chymdeithasol, darpariaeth addysgol, offer gofod agored / chwarae, trafnidiaeth, neu ofal iechyd ar gyfer y sawl sy'n symud i mewn i'r cartrefi newydd.

**'CAA'** (Canolfan Adnoddau Arbenigol) - Cyfleuster yn yr ysgol ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

**'Â Datganiad'** - Mae gan blentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol (AAA), a elwir hefyd yn ADY, os oes ganddo anawsterau dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig. Mae anhawster dysgu yn golygu bod y plentyn yn ei chael hi'n llawer anoddach dysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed neu fod gan y plentyn anabledd sy'n gofyn am wahanol gyfleusterau addysgol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu'n gyffredinol.

'**CC**' (Cyfrwng Cymraeg) – Ysgol lle mae'r addysgu a'r dysgu yn digwydd yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg.

**'CSGA'** (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg) - mae hwn yn gynllun deng mlynedd Cyngor Caerdydd i gynyddu a datblygu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc addysgol. Mae'n adeiladu ar waith y CSCA blaenorol ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2022 ac yn nodi cynllun gwaith sy'n dangos sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei weledigaeth ddeng mlynedd.

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1. CEFNDIR

Mae Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn ysgol gyfun gymysg 11-16 oed. Mae 833 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd gyda chyfanswm capasiti ar gyfer 813 o ddisgyblion. Dyma'r unig ysgol uwchradd Gatholig ym Mro Morgannwg ac mae wedi ei lleoli yn y Barri. Mae ganddi ddalgylch mawr sy'n cynnwys plwyfi fel Our Lady and St Illtyd's, Llanilltud Fawr, y Bont-faen a'r Rhws yn y gorllewin, a St Helen's, y Barri, Santes Fair, Dinas Powys a Phenarth Sant Joseff yn y dwyrain. Mae hefyd yn denu rhai disgyblion o orllewin Caerdydd. Mae'r ysgol yn darparu addysg grefyddol ac addoli nodweddiadol o addysg ac arferion yr Eglwys Gatholig.

Mae’r Corff Llywodraethu a Archesgobaeth Caerdydd yn Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn a Chyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn y Fro yn cael pob cyfle i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Er mwyn gwireddu’r uchelgais hwn, mae'n hanfodol bod ysgolion yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a bod ganddyn nhw’r amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae’r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn fuddsoddiad strategol hirdymor yn yr ystâd addysgol ledled Cymru. Mae’n enghraifft o gydweithredu unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), awdurdodau lleol, colegau ac esgobaethau. Mae gan Gyngor Bro Morgannwg hanes ardderchog o gyflawni prosiectau yn rhan o Fand A a B y Rhaglen yn brydlon ac o fewn y gyllideb. Mae disgwyl i'r Cyngor dderbyn cyllid Llywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy fel rhan o'r rhaglen dreigl ar gyfer datblygu ysgolion newydd i adeiladu adeilad ysgol newydd ar y safle presennol gyda gwelliannau i'r systemau draenio.

Bu datblygiad lleol o Lannau’r Barri sydd i'r de-orllewin o ganol tref y Barri ac sydd wedi'i leoli rhwng canol y dref ac Ynys y Barri. Bydd cyfanswm o tua 1,700 o gartrefi yn cael eu hadeiladu erbyn 2024. Amcanestynir y bydd Datblygiad Glannau’r Barri cyfan yn cyfateb i tua 170 o ddisgyblion dosbarth meithrin, 473 cynradd, a 422 uwchradd. Mae nifer amcangyfrifedig y disgyblion yn sgil datblygiad yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio fformiwla sy'n deillio o ddata'r cyfrifiad deiliaid tai ym Mro Morgannwg. Mae cyfanswm o 1559 o unedau wedi'u hadeiladu a'u meddiannu hyd yma gyda phlant wedi'u lleoli mewn ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal. O fewn dyraniadau Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) mae 488 o unedau eraill wedi'u cynllunio ar gyfer ardal Cosmeston ym Mhenarth a 403 uned yn ardal Sili sy'n gwasanaethu Sant Richard Gwyn i rieni sy'n dymuno cael addysg ffydd. Rhagwelir y bydd yr 891 uned yn arwain at tua 89 o ddisgyblion meithrin, 248 o ddisgyblion cynradd a 221 oed uwchradd.

Ar hyn o bryd mae Datblygiad Glannau’r Barri yn gwasanaethu Ysgolion Cynradd y Stryd Fawr a Holltwn o ran darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg, a Ysgol Uwchradd Whitmore a Phencoedtre High o ran darpariaeth Uwchradd Saesneg. Ysgol Sant Baruc ar gyfer

darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ac Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yr Holl Saint, ysgolion cynradd St Helens ac Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn ar gyfer addysg ffydd. Ni chynigir unrhyw newid i hyn fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Yr ysgolion bwydo dynodedig ar gyfer yr ysgol yw Ysgol Gynradd Gatholig San Helens yn Y Barri ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff ym Mhenarth. Mae nifer o ddisgyblion o'r tu allan i'r ysgolion cynradd bwydo yn mynychu'r ysgol yn amodol ar gymhwyso meini prawf gordanysgrifio'r ysgol.

Mae'r Corff Llywodraethu a Archesgobaeth Caerdydd wedi awdurdodi'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau i ymgymryd ag **Ymgynghoriad ar ei ran o 5 Medi 2023 i 17 Hydref 2023.**

## 1.2. Y CYNNIG

Caiff y cynnig hwn ei ystyried o dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r adran hon yn cyfeirio at Newidiadau Rheoledig mewn ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25%.

Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ysgolion yn gwasanaethu eu cymunedau lleol ac yn ymateb i'r galw. Mae ysgol newydd â 1,050 o leoedd ar y safle presennol wedi'i chynnwys fel rhan o Raglen Buddsoddi Ysgolion y Cyngor a ariennir gan Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Cynigir sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn a chynyddu ei gapasiti o 813 lle i 1,050 o leoedd. Bydd y cynnig hefyd yn cynnwys canolfan adnoddau arbenigol â 60 o leoedd.

Cynigir y byddai Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn yn symud i'r adeilad newydd erbyn mis Medi 2025.

Er bod trosglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, bydd yr ysgol newydd wedi'i lleoli ar safle presennol yr ysgol. Bydd adeilad newydd yr ysgol yng nghornel dde-orllewinol tir yr ysgol, gan ganiatáu i'r ysgol bresennol barhau i fod yn weithredol yn ystod y gwaith adeiladu. Mae gan Gyngor Bro Morgannwg ddyletswydd i sicrhau bod yr ysgol bresennol yn gallu gweithredu'n effeithiol yn ystod y cyfnod adeiladu ac mae ganddo brofiad o wneud hynny ar nifer o safleoedd eraill.

Bydd y datblygiad arfaethedig yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Bro Morgannwg o dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

**Ymateb i'r cynnig**

Mae'r corff llywodraethu ac Archesgobaeth Caerdydd yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn a'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod ymgynghoriadau'n ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol i'r cymunedau dan sylw. Mae gennym ddyletswydd gofal i sicrhau bod cynigion yn glir, tryloyw ac yn adlewyrchu'r sawl yr effeithir arnynt. Dim ond trwy weithio

mewn partneriaeth ag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach y gallwn wireddu'r weledigaeth hon.

“Mae’r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi ddysgu i holi cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu hystyried pan fyddwn ni’n penderfynu ar y ffordd ymlaen.”

Manylir ar ragor o wybodaeth am sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid a sut y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad yn Adran 7 "Cynnwys rhanddeiliaid ac ymateb i'r ymgynghoriad". Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys dolen i'r arolwg ar-lein a chyfeiriad post am ddim os hoffech gyflwyno ymateb drwy'r post. Gellir dod o hyd i'r ffurflen ymateb o dan Adran 8.

**Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw adborth gael ei dderbyn erbyn y dyddiad cau, 17 Hydref 2023, er mwyn cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

# 2. Y CYNNIG

## 2.1. TROSOLWG

Y bwriad yw ehangu a datblygu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn gyda chapasiti uwch o 1,050 o leoedd o fis Medi 2025. Bydd y cynnig hefyd yn cynnwys uned Canolfan Adnoddau Arbenigol â 60 lle.

Caiff y cynnig hwn ei ystyried o dan adran 2.3 Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae Adran 2.3 Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cyfeirio at Newidiadau Rheoleiddiedig i ysgol. Yr elfen yn yr adran hon sy'n berthnasol i'r cynnig yw cynyddu capasiti'r ysgol o leiaf 25%.

## 2.2. BETH Y BYDDAI HYN YN EI OLYGU?

Byddai'r cynnig yn golygu adeiladu ysgol Uwchradd Gatholig newydd â 1,050 o leoedd ar safle'r ysgol bresennol yng nghornel dde-orllewinol tir yr ysgol, gyda’r ysgol bresennol yn parhau i fod yn weithredol yn ystod y gwaith adeiladu. Ar ôl cwblhau'r adeilad, byddai Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn yn trosglwyddo i adeilad newydd yr ysgol erbyn mis Medi 2025. Byddai hyn yn darparu 237 o leoedd ychwanegol mewn ysgolion uwchradd a 60 o leoedd mewn canolfan adnoddau arbenigol. Byddai hyn yn ymateb i gynnydd yn nifer y disgyblion yn yr ardal ac yn helpu gyda’r galw am leoedd mewn ysgolion uwchradd yn y Barri.

Byddai'r ysgol wrth galon y gymuned a byddai'n hyrwyddo addysg Gatholig. Byddai'r cynnig hwn yn gwella hygyrchedd a chyflwr yr ysgol. Byddai'r cynnig hefyd yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i staff a dysgwyr Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn.

Mae'r ysgol bresennol wedi profi llifogydd mawr ar y safle dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd draenio gwael. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i wella draenio cyn i'r safle gael ei ailddatblygu.

Er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael addysg sy'n briodol i'w hanghenion, bydd adeilad newydd yr ysgol yn cynnwys canolfan adnoddau arbenigol.  Byddai’n cynnig 60 lle i ddisgyblion.. Bydd gan bob disgybl sy'n mynychu'r CAA gynlluniau dysgu unigol. Maen nhw’n cael cymorth mewn dosbarth arbenigol a byddan nhw’n mynychu dosbarthiadau prif ffrwd am wahanol hydoedd o amser, ochr yn ochr â gweithgareddau ysgol gyfan lle bo hynny'n briodol.

### DALGYLCH

Ni chynigir unrhyw newidiadau i ddalgylch neu bolisi derbyn Sant Richard Gwyn yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

**Ffigur 1:  Dalgylch Sant Richard Gwyn**




Fodd bynnag, mae'r holl drefniadau dalgylch a bwydo sydd ar waith ym Mro Morgannwg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.  Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgynghoriad ar drefniadau derbyn yn y dyfodol dan reolaeth corff llywodraethu'r ysgol.

## 2.3. PAM RYDYN NI’N CYNNIG Y NEWIDIADAU?

### CYFLWR AC ADDASRWYDD YR ADEILAD

Sant Richard Gwyn yw'r unig ysgol uwchradd ym Mro Morgannwg sydd heb dderbyn buddsoddiad eto fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Mae Sant Richard Gwyn wedi'i lleoli ar 5.2 hectar o dir ac mae'n cynnwys prif adeilad, adeiladau llai, ac adeiladau dros dro. Cafodd elfennau o'r ysgol eu categoreiddio fel rhai mewn cyflwr gwael yn dilyn adolygiad o'u cyflwr. Mae wynebau tarmac a charreg glai'r prif faes parcio a'r maes parcio ychwanegol mewn cyflwr gwael ac mae angen eu hail-wynebu. Mae'r fynedfa i flaen y prif adeilad a'r fynedfa i'r ardaloedd chwarae cefn mewn cyflwr gwael ac mae angen ail-wynebu'r rheini hefyd. Yn ogystal â chyflwr gwael yr adeilad, dylid ystyried y canlynol hefyd;

- Mae problem sylweddol gyda llifogydd ar y safle presennol oherwydd systemau draenio gwael. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i osod systemau draenio gwell er mwyn osgoi perygl llifogydd yn y dyfodol.

- Byddai adeilad newydd yr ysgol wedi'i leoli ar yr un safle gyda'r systemau draenio yn cael eu gwella cyn i'r gwaith adeiladu ddigwydd.

Mae ailddatblygu Sant Richard Gwyn, sy'n cynyddu nifer y lleoedd ysgol o 813 i 1,050, yn cynnig model mwy effeithlon a chynaliadwy nag ailwampio adeilad presennol yr ysgol. Mae'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â phroblemau gyda'r adeilad presennol, fel problemau gyda chyflwr, addasrwydd a llifogydd. Byddai disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeilad cynaliadwy a modern o safon uchel fyddai'n gallu cynorthwyo cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys.

Bydd y cynnig yn sicrhau bod yr adeilad newydd yn bodloni safonau adeiladu modern i leihau costau rheolaidd a bod yn garbon sero-net o ran ei weithrediad. Bydd yr adeilad newydd hefyd yn bodloni safonau Rhagoriaeth BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu).

# 3. GOBLYGIADAU'R CYNNIG

## 3.1. GWYBODAETH AM YR YSGOL

Mae'r tabl isod yn amlinellu gwybodaeth capasiti bresennol Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn:

**TABL 1: GWYBODAETH YSGOL SANT RICHARD GWYN**

| Ysgol | Math o Ysgol | Categori iaith | Nifer derbyn | Capasiti ysgol | Nifer ar y gofrestr | Ystod oedran |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sant Richard Gwyn | Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir | Cyfrwng Saesneg | 163 | 813 | 833 | 11 - 16 |

Ysgol ffydd wirfoddol a gynorthwyir yw Sant Richard Gwyn. Y Corff Llywodraethol yw awdurdod derbyn yr ysgol a Phwyllgor Derbyn i'r Ysgol y Corff Llywodraethu sy'n awdurdodi derbyn pob disgybl. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llawn â'r awdurdod lleol sy'n gweinyddu'r

broses drosglwyddo blwyddyn 7 ar ran y corff llywodraethu fel rhan o'r trefniadau derbyn cydlynol y cytunwyd arnynt sydd ar waith.

Y GALW AM LEOEDD MEWN YSGOLION

Mae'r tabl canlynol yn dangos data niferoedd ar y gofrestr yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion (CYBLD) ym mis Ionawr ym mhob blwyddyn a rhagamcanion o niferoedd ar sail data niferoedd ar y gofrestr.

**TABL 2: AMCANESTYNIAD NIFER AR Y GOFRESTR YSGOL UWCHRADD GATHOLIG ST RICHARD GWYN**

| Ysgol | Capasiti Presennol yr Ysgol | CYBLD 2019 | CYBLD 2020 | CYBLD 2021 | CYBLD 2022 | Nifer ar y Gofrestr Presennol 2023 | Rhagamcanion 2023/2024 | Rhagamcanion 2024/2025 | Rhagamcanion 2025/2026 | Rhagamcanion 2026/2027 | Rhagamcanion 2027/2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sant Richard Gwyn | 813 | 791 | 795 | 801 | 821 | 833 | 844 | 862 | 877 | 846 | 868 |

Mae'r tablau isod yn nodi'r niferoedd presennol ar y gofrestr (NAG) ar gyfer ysgolion a gynhelir yn y Barri ac ysgolion cynradd bwydo'r ysgol.

TABL 3: GWYBODAETH YSGOLION CYNRADD YSGOLION A BWYDO CYFAGOS

| Ysgol | DN | Capasiti Ysgol | Derbyniad | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | Cyfanswm NAG | Cyfanswm Capasiti Dros Ben |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| EYNg yr Holl Saint | 30 | 210 | 25 | 28 | 26 | 30 | 29 | 28 | 23 | 189 | 21 |
| Ynys y Barri | 30 | 210 | 28 | 30 | 30 | 30 | 23 | 29 | 31 | 201 | 9 |
| Ysgol Gynradd Tregatwg | 60 | 420 | 59 | 59 | 53 | 57 | 60 | 58 | 61 | 407 | 13 |
| Ysgol Gynradd Colcot | 45 | 315 | 41 | 42 | 37 | 40 | 45 | 44 | 43 | 292 | 23 |

| Ysgol | DN | Capasiti Ysgol | Derbyniad | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | Cyfanswm NAG | Cyfanswm Capasiti Dros Ben |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Gladstone | 60 | 420 | 48 | 58 | 50 | 50 | 46 | 58 | 60 | 370 | 50 |
| Ysgol Gynradd High Street | 30 | 210 | 26 | 29 | 30 | 30 | 31 | 29 | 31 | 206 | 4 |
| Ysgol Gynradd Holltwn | 60 | 420 | 46 | 45 | 49 | 56 | 48 | 57 | 60 | 361 | 59 |
| Ysgol Gynradd Parc Jenner | 30 | 210 | 20 | 23 | 25 | 32 | 29 | 24 | 36 | 189 | 21 |
| Ysgol Gynradd Oakfield | 30 | 210 | 30 | 19 | 22 | 30 | 23 | 21 | 31 | 176 | 34 |
| Ysgol Gynradd Romilly | 90 | 630 | 88 | 84 | 89 | 89 | 89 | 85 | 89 | 613 | 17 |
| Ysgol Gynradd Palmerston | 30 | 210 | 31 | 29 | 30 | 29 | 29 | 29 | 29 | 206 | 4 |
| St Helens RC (ysgol fwydo) | 44 | 308 | 39 | 46 | 44 | 44 | 32 | 43 | 45 | 293 | 15 |
| St Josephs (ysgol fwydo) | 30 | 210 | 26 | 27 | 29 | 29 | 30 | 29 | 31 | 201 | 9 |
| Ysgol Gwaun y Nant | 60 | 270 | 25 | 37 | 31 | 31 | 16 | 32 | 29 | 201 | 9 |
| Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | 30 | 210 | 30 | 29 | 28 | 30 | 26 | 29 | 29 | 201 | 9 |
| Ysgol Sant Curig | 60 | 420 | 60 | 60 | 57 | 52 | 48 | 51 | 53 | 381 | 39 |
| Ysgol Sant Baruc | 60 | 420 | 44 | 30 | 31 | 29 | 29 | 30 | 25 | 218 | 202 |
| Cyfanswm | 779 | 5303 | 666 | 675 | 661 | 688 | 633 | 676 | 706 | 4705 | 589 |

| Ysgol | DN | Capasiti Ysgol | Derbyniad | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | Cyfanswm NAG | Cyfanswm Capasiti Dros Ben |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleoedd ar gael mewn grwpiau blwyddyn | | | 113 | 104 | 118 | 91 | 146 | 103 | 73 | - | - |

| Ysgol | Nifer Derbyn | Capasiti | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 | Blwyddyn 10 | Blwyddyn 11 | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 | Cyfanswm NAG | Capasiti dros ben |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pencoedtre | 210 | 1250 | 229 | 211 | 206 | 205 | 174 | 51 | 28 | 1104 | 146 |
| Whitmore | 180 | 1100 | 184 | 183 | 194 | 185 | 174 | 87 | 69 | 1076 | 24 |
| Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | 300 | 1450 | 204 | 204 | 209 | 205 | 177 | 89 | 79 | 1167 | 283 |

Mae'r tabl canlynol yn dangos data blaenorol Niferoedd ar y Gofrestr o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol Lefel Disgyblion (CYBLD) mis Ionawr bob blwyddyn mewn ysgolion cyfagos ac ysgolion cynradd bwydo,

TABL 5: NIFEROEDD AR Y GOFRESTR YN FLAENOROL YSGOLION CYFAGOS AC YSGOLION CYNRADD BWYDO

| **Ysgol** | **Capasiti Presennol yr Ysgol** | **Ionawr, 2019** | **Ionawr 2020** | **Ionawr 2021** | **Ionawr 2022** |
|---|---|---|---|---|---|
| Pencoedtre | 1250 | 787 | 872 | 935 | 993 |
| Whitmore | 1100 | 891 | 922 | 1011 | 1079 |
| Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | 1450 | 924 | 1015 | 1094 | 1141 |
| EYNg yr Holl Saint | 210 | 207 | 206 | 204 | 206 |

| Ysgol | Capasiti Presennol yr Ysgol | Ionawr, 2019 | Ionawr 2020 | Ionawr 2021 | Ionawr 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys y Barri | 210 | 207 | 207 | 208 | 206 |
| Ysgol Gynradd Tregatwg | 420 | 411 | 416 | 407 | 407 |
| Ysgol Gynradd Colcot | 315 | 294 | 290 | 280 | 293 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 420 | 396 | 389 | 392 | 382 |
| Ysgol Gynradd High Street | 310 | 210 | 211 | 206 | 209 |
| Ysgol Gynradd Holltwn | 420 | 386 | 388 | 391 | 375 |
| Ysgol Gynradd Parc Jenner | 216 | 211 | 211 | 210 | 198 |
| Ysgol Gynradd Oakfield | 210 | 172 | 166 | 170 | 175 |
| Ysgol Gynradd Palmerston | 210 | 206 | 207 | 204 | 204 |
| Ysgol Gynradd Romilly | 630 | 621 | 622 | 619 | 623 |
| St Helens RC (ysgol fwydo) | 308 | 280 | 277 | 276 | 278 |
| St Josephs (ysgol fwydo) | 210 | 196 | 196 | 199 | 201 |
| Ysgol Gwaun y Nant | 270 | 205 | 212 | 210 | 208 |
| Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | 210 | 202 | 199 | 197 | 202 |
| Ysgol Sant Curig | 420 | 368 | 358 | 371 | 373 |
| Ysgol Sant Baruc | 210 | 196 | 200 | 198 | 199 |

Mae'r tabl canlynol yn dangos data Niferoedd ar y Gofrestr a ragwelir mewn ysgolion cyfagos ac ysgolion cynradd bwydo.

### TABL 6: AMCANESTYNIADAU NIFEROEDD AR Y GOFRESTR YSGOLION CYFAGOS AC YSGOLION CYNRADD BWYDO

| Ysgol | Capasiti Presennol yr Ysgol | Rhagamcan 2023/2024 | Rhagamcan 2024/2025 | Rhagamcan 2025/2026 | Rhagamcan 2026/2027 | Rhagamcan 2027/2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pencoedtre | 1250 | 1206 | 1257 | 1278 | 1293 | 1270 |
| Whitmore | 1100 | 1110 | 1127 | 1128 | 1135 | 1117 |
| Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | 1450 | 1210 | 1236 | 1231 | 1246 | 1285 |
| EYNg yr Holl Saint | 210 | 196 | 193 | 187 | 184 | 184 |
| Ynys y Barri | 210 | 195 | 192 | 195 | 193 | 192 |
| Ysgol Gynradd Tregatwg | 420 | 408 | 408 | 406 | 403 | 409 |
| Ysgol Gynradd Colcot | 315 | 290 | 288 | 284 | 286 | 288 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 420 | 360 | 352 | 354 | 358 | 361 |
| Ysgol Gynradd High Street | 210 | 198 | 199 | 196 | 198 | 196 |
| Ysgol Gynradd Holltwn | 420 | 351 | 343 | 345 | 337 | 336 |
| Ysgol Gynradd Parc Jenner | 216 | 172 | 170 | 163 | 156 | 153 |
| Ysgol Gynradd Oakfield | 210 | 168 | 170 | 168 | 163 | 166 |
| Ysgol Gynradd Palmerston | 210 | 204 | 204 | 201 | 201 | 200 |
| Ysgol Gynradd Romilly | 630 | 613 | 611 | 602 | 602 | 597 |
| St Helens RC (ysgol fwydo) | 308 | 294 | 295 | 305 | 299 | 293 |
| St Josephs (ysgol fwydo) | 210 | 198 | 200 | 199 | 198 | 196 |

| Ysgol | Capasiti Presennol yr Ysgol | Rhagamcan 2023/2024 | Rhagamcan 2024/2025 | Rhagamcan 2025/2026 | Rhagamcan 2026/2027 | Rhagamcan 2027/2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gwaun y Nant | 270 | 191 | 178 | 179 | 172 | 167 |
| Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | 210 | 201 | 200 | 204 | 203 | 204 |
| Ysgol Sant Curig | 420 | 374 | 370 | 364 | 363 | 358 |
| Ysgol Sant Baruc | 210 | 235 | 241 | 245 | 252 | 256 |

## 3.2. CANLYNIADAU ADDYSGOL

Mae’r Corff Llywodraethu’n gweithio’n agos gyda Chyngor Bro Morgannwg i sicrhau bod safonau’n gadarn, bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel a bod arweinyddiaeth a llywodraethu’n gryf. Mae’r Cyngor yn gweithio gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion ac i gefnogi gwelliant mewn ysgolion.

Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n gorff y Goron, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn gorff annibynnol ond mae'n derbyn ei arian gan Lywodraeth Cymru dan Adran 104 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant Cymru.

Sefydlwyd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) ym mis Medi 2012. Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Consortiwm i gefnogi a herio pob ysgol ym Mro Morgannwg.

Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt wella ansawdd addysg a gynigir a chodi safonau a gyflawnir gan eu disgyblion.

### ADRODDIAD ESTYN

Cafodd Sant Richard Gwyn ei arolygu ddiwethaf ym mis Mai 2017.  Mae'r adroddiad yn crynhoi:

Mae'r ysgol yn darparu addysg grefyddol ac addoli sy’n nodweddiadol o addysg ac arferion yr Eglwys Gatholig.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu anghenion disgyblion unigol. Mae'n gweithio'n effeithiol gyda darparwyr eraill i gynnig ystod gwerth chweil o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol, er enghraifft drwy ddisgyblion sy'n mynychu cwrs paratoi milwrol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd wedi'i chynllunio'n glir a deunyddiau cymorth ar gyfer meysydd pwnc a ddarperir.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda i sicrhau dilyniant mewn profiadau dysgu wrth i ddisgyblion drosglwyddo i'r ysgol uwchradd ac yna i addysg ôl-16 oed. Mae'n cynnig ystod eang o gyfleoedd ac adnoddau i baratoi disgyblion yn dda ar gyfer cam nesaf eu hastudiaethau neu fyd gwaith. Mae anghenion disgyblion mwy abl yn cael eu diwallu yn briodol.

Mae defnydd effeithiol o'r Gymraeg a hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gynyddu eu dealltwriaeth ddiwylliannol a hanesyddol o Gymru, er enghraifft drwy ddathlu seintiau Cymru yn ystod cyfnod bugeiliol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a gyflawnir ac agweddau tuag at y Gymraeg. Mae'r ysgol yn darparu ystod fuddiol o weithgareddau allgyrsiol sy'n rhoi mynediad i ddisgyblion at gyfleoedd chwaraeon, addysgol a diwylliannol gwerth chweil.

Mae athrawon arbenigol a chynorthwywyr addysgu yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi'n effeithiol. Mae cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ac maent yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth a strategaethau defnyddiol i ddiwallu anghenion dysgu'r disgyblion. Mae gan rieni a disgyblion fewnbwn gwerthfawr i'r cynlluniau addysg unigol hyn. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn defnyddio'r cynlluniau hyn yn gyson i addasu gweithgareddau a deunyddiau i ddiwallu anghenion unigol.

Mae'r pennaeth, yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r llywodraethwyr yn mynegi gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol. Mae hyn yn canolbwyntio ar ddyheadau uchel, ethos cryf o ofal a thosturi a diwylliant datblygol o ddysgu proffesiynol i wella ansawdd yr addysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau, lles a safonau disgyblion, ac mae'n creu staff unedig a cholegol.

Mae gan y corff llywodraethu ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu rôl yn effeithiol ac yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her. Mae sgiliau a phrofiad eang y llywodraethwyr yn eu galluogi i ymgysylltu ag amrywiaeth o weithgareddau i sicrhau, craffu a herio'r safonau academaidd a bugeiliol yn yr ysgol.

## AROLYGU ADDYSG ENWADOL

Fel ysgol sydd â chymeriad crefyddol, mae Sant Richard Gwyn hefyd yn destun arolwg addysg enwadol o dan Adran 50 Deddf Addysg 2005.

Cynhaliwyd yr arolygiad Adran 50 diwethaf ym mis Gorffennaf 2017 a graddiodd yr Adroddiad yr ysgol yn Dda yn ei effeithiolrwydd wrth ddarparu addysg Gatholig a'i rhagolygon ar gyfer gwella. Roedd yr adroddiad yn nodi:

Mae addysg Gatholig yn Ysgol Uwchradd St Richard Gwyn yn seiliedig ar ei Datganiad Cenhadaeth ac mae ei hethos wedi'i gwreiddio'n gadarn mewn gwerthoedd Efengyl. Mae'r ysgol yn darparu lefel dda o addysg Gatholig oherwydd:

- Mae gan y pennaeth weledigaeth glir o genhadaeth yr Ysgol sy'n cael ei rhannu gan yr holl staff a rhanddeiliaid
- Mae'r corff llywodraethu yn effeithiol ac yn wybodus ac yn rhoi cymorth i'r ysgol yn dda.
- Mae'r Caplan yn rhoi cymorth da i'r adran Addysg Grefyddol ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i ethos yr ysgol gyfan.
- Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar a chynhwysol.
- Mae'r disgyblion yn falch iawn o'u hysgol a'i hunaniaeth Gatholig.
- Mae gofal bugeiliol rhagorol a ddarperir i ddisgyblion yn nodwedd ragorol ac yn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol.
- Mae perthnasoedd o fewn yr ysgol yn gryf ac mae hyn yn cyfrannu at yr ymdeimlad cytûn.

Mae posibilrwydd yr ysgol o wella'n dda oherwydd:

- Mae prosesau hunanwerthuso yn datblygu ac mae'r pennaeth, llywodraethwyr a'r Pennaeth Addysg Grefyddol yn deall yr hyn sydd ei angen i symud yr Addysg Grefyddol.
- Mae'r llywodraethwr cyswllt ar gyfer Addysg Grefyddol yn darparu cefnogaeth a her dda yn yr adran Addysg Grefyddol ac ym mywyd Catholig yr ysgol.
- Mae Cynllun Gwella Adran Addysg Grefyddol yn nodi meysydd i'w gwella'n gywir.

## ARGYMHELLION ESTYN

Er mwyn gwella, mae angen i'r ysgol:

- A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4
- R2 Gwella ansawdd yr addysgu
- R3 Lleihau absenoldeb cyson
- R4 Cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynllunio gwella

Gellir dod o hyd i adroddiad arolwg Sant Richard Gwyn yn:

https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/St%2520Richard%2520Gwyn%2520R.C.%2520High%2520School.pdf

## ARGYMHELLION O'R AROLWG ADDYSG ENWADOL

- A1 Parhau i wella ansawdd yr addysgu mewn Addysg Grefyddol fel bod yr holl addysgu yn cael ei ystyried yn dda neu'n well.

- A2 ymgorffori system asesu, monitro ac olrhain fwy trylwyr i nodi disgyblion sy'n tanberfformio, a chynllunio ymyriadau amserol, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4.
- A3 Adolygu cysondeb a chywirdeb marcio yn yr adran Addysg Grefyddol, gan sicrhau adborth o ansawdd sy'n galluogi disgyblion ar bob cam allweddol i symud ymlaen.
- A4 Parhau i ddatblygu cyfleoedd i bob plentyn fod yn rhan o'r gwaith o baratoi, arwain a chyflwyno addoliad.

## 3.3. EFFAITH ARFAETHEDIG AR DDEILLIANNAU ADDYSGOL

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig datblygu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn o fis Medi 2025. Byddai'r ysgol bresennol yn parhau i fod yn wag tra bod yr adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar y safle presennol gyda mesurau diogelwch ar waith.

### SAFONAU A CHYNNYDD

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar eu cyfoedion a'u hathrawon ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n dda. Mae llawer ohonynt yn gweithio'n dda mewn grwpiau bach a pharau.
- Mae llawer o ddisgyblion yn rhugl, yn siarad yn hyderus mewn sefyllfaoedd dosbarth cyfan ac yn mynegi eu barn gan ddefnyddio iaith a naws briodol. Maen nhw'n parchu barn pobl eraill ac yn ofalus yn yr iaith maen nhw'n ei defnyddio er mwyn peidio â throseddu na gofidio ei gilydd.
- Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau darllen priodol, fel sgimio a sganio i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol. Maent yn anodi testunau yn ddefnyddiol i nodi ffeithiau allweddol a nodweddion iaith. Mae rhai disgyblion yn dangos sgiliau darllen trefn uwch da iawn.
- Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu effeithiol (TGCh). Mae llawer o ddisgyblion yn gallu defnyddio'r sgiliau hyn yn effeithiol at ystod eang o ddibenion, gan gynnwys ymchwil, cyflwyno, prosiectau amlgyfrwng, casglu a dadansoddi data.

Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r amgylchedd dysgu a'r seilwaith, gan gynnwys cyfleusterau dan do ac awyr agored a gofod dysgu yn elfennau allweddol wrth gefnogi athrawon a dysgwyr. Adlewyrchir hyn yn nodau'r cwricwlwm cenedlaethol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) ac uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer Ysgolion Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu gyda mynediad llawn at dechnolegau modern.

Cynhyrchwyd y FfCD er mwyn sicrhau datblygiad llythrennedd digidol, cymhwysedd a sgiliau o oedran cynnar. "Cymhwysedd Digidol yw'r set o sgiliau a gwybodaeth ac agweddau sy'n galluogi'r defnydd hyderus, creadigol a beirniadol o dechnolegau a systemau. Mae'n

hanfodol i ddysgwyr os ydyn nhw am gael gwybod, yn alluog ac yn meddu ar y potensial i fod yn llwyddiannus yn y gymdeithas sydd ohoni."  Bydd angen i syniadau tasg yn yr ystafell ddosbarth "newid a datblygu i adlewyrchu technolegau newydd a'r profiad a'r arbenigedd cynyddol o fewn y maes dysgu digidol".  O fis Medi 2022, bydd lleoliadau ac ysgolion yn cyflwyno cymhwysedd digidol yn drawsgwricwlaidd. Byddan nhw:

- Wedi gwreiddio cymhwysedd digidol y mhob rhan o gwricwlwm yr ysgol
- Parhau i addasu dulliau cymhwysedd digidol presennol i'r cwricwlwm newydd
- Parhau i adolygu a mireinio eu dull o gymhwysedd digidol.

Felly, mae darparu'r adnoddau a'r technolegau priodol i sicrhau ein bod yn cefnogi dysgwyr i gyflawni amcanion y fframwaith yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer adeiladau ysgol newydd fel rhan o'n strategaeth ar gyfer rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu y Cyngor.

## LLESIANT AC AGWEDDAU AT DDYSGU

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae bron pob disgybl yn falch o'u hysgol.  Maent yn groesawgar, yn gwrtais ac yn gymwynasgar. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.  Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan y staff bugeiliol, y staff pwnc a'r uwch arweinwyr pan fydd ganddynt heriau neu bryderon personol.
- Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda iawn o sut i gadw eu hunain yn iach trwy ddeiet ac ymarfer corff.  Mae'r mwyafrif yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu ymarfer corff.  Mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.
- Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol ac yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu.  Mewn rhai gwersi, mae rhai disgyblion yn cymryd rhan mewn ymddygiad oddi ar dasg, ac mae ychydig iawn yn tarfu ar ddysgu eraill yn y gwersi hyn.

O ganlyniad i'r cynnig, bydd yr ysgol yn trosglwyddo i adeilad ysgol newydd ar yr un safle. Byddai gan yr ysgol newydd well cyfleusterau awyr agored a bydd yn fwy hygyrch. Byddai'r ysgol newydd hefyd yn cynnwys ardaloedd ymneilltuo a Chanolfan Adnoddau Arbenigol i helpu i wella lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.

## PROFIADAU DYSGU AC ADDYSGU

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n diwallu anghenion disgyblion unigol.  Mae'n gweithio'n effeithiol gyda darparwyr eraill i gynnig ystod gwerth chweil o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol, er enghraifft drwy ddisgyblion sy'n mynychu cwrs paratoi milwrol.

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd wedi'i chynllunio'n glir a deunyddiau cymorth ar gyfer meysydd pwnc a ddarperir. Mae cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau llythrennedd yn briodol ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu sgiliau rhifedd mewn cyd-destunau priodol yn ddigonol.
- Mae'r ysgol yn rhoi cymorth i'r disgyblion hynny sydd â'r sgiliau llythrennedd a rhifedd gwannaf yn dda. Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda i sicrhau dilyniant mewn profiadau dysgu wrth i ddisgyblion drosglwyddo i'r ysgol uwchradd ac yna i addysg ôl-16 oed. Mae'n cynnig ystod eang o gyfleoedd ac adnoddau i baratoi disgyblion yn dda ar gyfer cam nesaf eu hastudiaethau neu fyd gwaith. Mae anghenion disgyblion mwy abl yn cael eu diwallu yn briodol.

Byddai'r cynnig yn arwain at brofiadau addysgu a dysgu gwell trwy ddarparu cyfleusterau addysg modern. Mae hyn yn cynnwys mannau trafod a Chanolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer meysydd dysgu ychwanegol, gwell seilwaith digidol drwy gydol adeilad newydd yr ysgol sy'n adlewyrchu safonau'r cwricwlwm digidol. Yn ogystal, bydd dyluniad yr adeilad yn helpu i gynorthwyo addysgeg effeithiol trwy gyfleusterau gwell, safoni maint ystafelloedd dosbarth a thrwy ddarparu adeilad a mannau awyr agored sy'n adlewyrchu gofynion gofod Bwletin Adeiladau 99.

## GOFAL, CYMORTH AC ARWEINIAD

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae gan yr ysgol ddarpariaeth hynod effeithiol ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad. Mae'n gymuned ofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi.
- Mewn un ysgol mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol yn yr ysgol yn nodwedd ragorol. Mae hyn wedi'i gynllunio'n dda iawn ac mae'r themâu'n cael eu rhoi ar waith drwy raglen gynhwysfawr o ddiwrnodau ffocws wedi'u teilwra, cynulliadau, amser myfyrio a gwersi.
- Mae'r ddarpariaeth hon yn cael effaith sylweddol ar les disgyblion. Mae'r cyngor a'r arweiniad buddiol a roddir i ddisgyblion wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol yn gryfder penodol.
- Mae gweithdrefnau pontio o ansawdd uchel o'r ysgolion cynradd wedi'u sefydlu'n dda.
- Mae disgyblion hefyd yn cael cymorth effeithiol iawn ynghylch eu dewisiadau pwnc a'u dewisiadau ar gyfer addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn y dyfodol.
- Mae athrawon arbenigol a chynorthwywyr addysgu yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi'n effeithiol.
- Mae cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ac maent yn cynnwys llawer iawn o wybodaeth a strategaethau defnyddiol i ddiwallu anghenion dysgu disgyblion.

O ganlyniad i'r cynnig, bydd yr ysgol yn trosglwyddo i adeilad ysgol newydd ar y safle presennol. Byddai gan yr ysgol newydd ardaloedd awyr agored mwy a gwell i wella lles disgyblion. Byddai'r ysgol newydd hefyd yn cynnwys ardaloedd ymneilltuo a Chanolfan

Adnoddau Arbenigol i roi mannau dysgu ychwanegol i helpu i wella lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Ar ben hynny, mae dyluniad yr adeilad newydd yn cynnwys gwell pontio rhwng grwpiau blwyddyn.

### ARWAIN A RHEOLI

Pwyntiau allweddol o arolygiad diwethaf Estyn:

- Mae'r pennaeth, yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r llywodraethwyr yn mynegi gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol.
- Mae rolau a chyfrifoldebau'r tîm arweinyddiaeth wedi'u diffinio'n glir er mwyn sicrhau bod llinellau atebolrwydd yn glir a bod y ffocws ar wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ymhellach.
- Mae strwythur cadarn, rheolaidd a chydlynol i gyfarfodydd tîm yn galluogi cyfathrebu blaenoriaethau'r ysgol yn effeithiol a rhoi chamau gweithredu i gefnogi'r rhain ar waith.
- Mae cyfarfodydd yn bwrpasol ac yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd dysgwyr tuag at dargedau.
- Mae trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol.
- Mae gan y corff llywodraethu ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.
- Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu rôl yn effeithiol ac yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau, lles a safonau disgyblion, ac mae'n creu staff unedig a cholegol.  Bydd adeilad ysgol newydd yn arwain at ddileu'r cyfyngiadau gydag adeiladau a thiroedd presennol yr ysgol yn arwain at le mwy hylaw i staff a dysgwyr.

## 3.4. DARPARIAETH GYMRAEG

Mae Rhaglen Buddsoddi Mewn Ysgolion y Cyngor yn adlewyrchu ymrwymiadau'r Cyngor yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), sy'n ceisio sicrhau y gellir bodloni'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr hirdymor. Yn unol â strategaeth Genedlaethol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chyfrannu at ei tharged uchelgeisiol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Nid yw Sant Richard Gwyn yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ond mae'n cynnig amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol sy'n cynnig cyfleoedd chwaraeon, addysgol a diwylliannol gwerth chweil i ddisgyblion. Mae Bro Morgannwg yn hyrwyddo effaith gadarnhaol ar safonau a gyflawnir ac agweddau tuag at y Gymraeg.

## 3.5. DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Nid oes gan Sant Richard Gwyn CAA ar hyn o bryd; mae'n rhoi cymorth arbenigol i blant ag anghenion wedi eu nodi mewn lleoliad cynhwysol yn yr ysgol. Mae Ysgol Uwchradd Whitmore ac Ysgol Uwchradd Pencoedtre wedi cyflwyno unedau CAA yn llwyddiannus yn

eu hysgolion, ac mae hwn yn fodel yr hoffai'r Cyngor a'r corff llywodraethu ei gyflwyno yn Sant Richard Gwyn.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am anghenion disgyblion presennol.

**Tabl 4: Gwybodaeth am ADY ar gyfer Sant Richard Gwyn**

| ***2022/ 2023*** | | ***Sant Richard Gwyn*** | ***ALl*** | ***Cymru*** |
|---|---|---|---|---|
| Canran y Disgyblion ADY | Gweithredu gan yr Ysgol | Dd/B | 4.1% | 7.3% |
| | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | 5.17% | 4.3% | 6.1% |
| | Â datganiad | 0% | 0.5% | 2% |

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm mwy pwrpasol ac wedi’i dargedu sy’n ymateb i alluoedd plant unigol ac sy’n sicrhau bod yr holl blant sydd angen cymorth ychwanegol yn cael eu hintegreiddio ym mhob rhan o’r cwricwlwm.

## 3.6. EFFAITH AR YSGOLION ERAILL

Mae’r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol am nad oes unrhyw newid yn cael ei gynnig i’r dalgylch presennol.

## 3.7. TIR AC ADEILADAU

Mae gan y corff llywodraethu a'r cyngor weledigaeth i ddarparu'r cyfleusterau gorau posibl i blant a phobl ifanc gefnogi eu dysgu ac mae cydnabyddiaeth bod gan safle presennol yr ysgol nifer o heriau. Cynhaliwyd arolwg cyflwr diweddaraf y Cyngor o'r ysgol yn 2022 a nodwyd bod yna broblemau sylweddol gyda'r adeilad presennol. Mae arolwg cyflwr yn cynnwys asesiad gweledol o holl rannau'r adeilad sydd yn y golwg i nodi diffygion sylweddol ac eitemau sydd mewn cyflwr gwael.

**Tabl 5: Adroddiad Cyflwr Sant Richard Gwyn 2022**

| **Ysgol** | **Math** | **Cyflwr** | **Addasrwydd** | **Ôl-groniad Cynnal a Chadw** |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn | Gwirfoddol a gynorthwyir | Gwael | Yn rhannol annigonol | £3,485,000 |

Mae Sant Richard Gwyn wedi'i lleoli ar 5.2 hectar o dir ac mae'n cynnwys bloc y prif adeilad a sawl bloc modiwlar a chynwysyddion eraill. Mae wynebau tarmac a charreg glai’r prif faes parcio a’r maes parcio ychwanegol mewn cyflwr gwael ac mae angen eu hail-wynebu. Mae'r llwybr mynediad i flaen y prif adeilad a’r llwybr i’r ardaloedd chwarae yn y cefn mewn cyflwr gwael ac mae angen eu hail-wynebu. Mae problem sylweddol gyda llifogydd ar y safle oherwydd draenio gwael.
Bydd yr hen adeilad presennol yn cael ei ddymchwel ar ôl i'r ysgol newydd gael ei hadeiladu oherwydd ei gyflwr a'r draenio gwael o'i gwmpas. Bydd adeilad newydd yr ysgol yng nghornel dde-orllewinol tir yr ysgol, gan ganiatáu i'r ysgol bresennol barhau i fod yn weithredol yn ystod y gwaith adeiladu.

- Mae gan yr adeilad presennol arwynebedd mewnol o 5,228 m2. Bydd yr adeilad newydd yn bodloni Bwletin Adeiladau 99 ar gyfer Ysgolion Uwchradd ac yn cynnwys darpariaeth chwaraeon awyr agored gwell. Bydd y cynnig yn sicrhau bod yr adeilad newydd yn bodloni BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn garbon sero-net o ran gweithrediad.

Bydd yr adeilad newydd arfaethedig yn darparu:

- Amgylchedd dysgu yn llawn TG o ansawdd uchel i ddisgyblion sy'n diwallu anghenion cwricwlwm addysgol y 21ain Ganrif
- Cyfleuster adeiladu modern sy'n addas at y diben ac sy'n darparu cyfleoedd dysgu gwell i ddisgyblion
- Diogelu a diogelwch safle gwell i ddisgyblion a staff
- Cyfleusterau chwaraeon awyr agored gwell at ddefnydd disgyblion a’r gymuned.
- Mynediad llawn i'r gymuned gyfan gyda mynediad llawn i ardaloedd mewnol ac allanol ar gyfer pobl anabl.

## 3.8. CYLLID

### CYLLID CYFALAF

Yn amodol ar gymeradwyo’r cynnig hwn, caiff buddsoddiad cyfalaf sylweddol ei wneud er mwyn sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn. Byddai'r Cyngor yn rheoli'r broses a bydd corff llywodraethu, staff, rhieni a disgyblion Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn cymryd rhan lawn yn natblygiad y cynlluniau. Bydd y Cyngor hefyd yn gyfrifol am reoli’r gwaith adeiladu.

Amcangyfrifir mai cyfanswm yr arian cyfalaf sydd ei angen i adeiladu ysgol newydd yw £62 miliwn. Disgwylir y bydd y Cyngor yn cael £52.7 miliwn (85%) mewn arian cyfatebol gan Lywodraeth Cymru trwy Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ar gyfer y prosiect hwn.

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi derbyn cyllid ar gyfer Band A a Band B y rhaglen ac mae ganddynt hanes da o sicrhau'r cyllid.

### CYLLID REFENIW

Amcangyfrifir y byddai'r gost flynyddol o weithredu ysgol newydd â lle i 1,050 yn Sant Richard Gwyn yn £5.060M yn seiliedig ar gapasiti llawn o 210 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn gan ddefnyddio ffactorau ariannu o fformiwla ariannu prif ffrwd 2023/24. Y gyllideb refeniw a ddirprwywyd i ysgol Sant Richard Gwyn ar gyfer 2023/24 oedd £4.125M ar gyfer 836 o ddisgyblion. Byddai'r gost uwch o £935k (nad yw'n cynnwys effaith chwyddiant) yn digwydd yn raddol dros gyfnod o bum mlynedd am y byddai capasiti uwch yr ysgol yn cael ei lenwi bob blwyddyn o flwyddyn 7. Amcangyfrifir bod y gost uwch ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn £208k er y bydd hyn yn dibynnu ar ddyddiad agor terfynol yr adeilad newydd am y bydd y fformiwla'n cael ei addasu ar sail pro rata.

Mae Asesiad Gwariant Sylfaenol (AGS) y Cyngor ar gyfer addysg yn cael ei sbarduno gan ddata niferoedd disgyblion; dylai cynnydd yn y boblogaeth mewn ysgolion wedyn arwain at gynnydd yn AGS y Cynghorau ar gyfer Addysg, ac yn ei dro cynnydd mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yn cyflwyno pwysau cost fel rhan o brosesau gosod cyllideb y Cyngor i ariannu unrhyw gynnydd demograffig mewn ysgolion prif ffrwd; a bydd y cyllid cynyddol hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu cost uwch yr ysgol fwy yn Sant Richard Gwyn, byddai hyn oherwydd oedi cyn derbyn cyllid ar gyfer niferoedd ychwanegol o ddisgyblion gan Lywodraeth Cymru. Os na ddyfernir neu os dyfernir y pwysau cost yn rhannol, byddai'r gwahaniaeth yn cael ei dalu o gyllideb ddirprwyedig ysgolion yn gyffredinol.

Mae'r cynigion yn cynnwys sefydlu canolfan adnoddau ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd cost refeniw flynyddol y ganolfan adnoddau yn dibynnu ar nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru a chymhlethdodau eu hanghenion. Bydd y Gyfarwyddiaeth yn cyflwyno pwysau cost cyllidebol o ran cynyddu darpariaeth canolfan adnoddau yn y sector uwchradd fel rhan o'r broses o osod cyllidebau.

## 3.9. ADNODDAU DYNOL

Ni ragwelir y byddai unrhyw effeithiau niweidiol i staff am y byddent yn syml yn symud i adeilad newydd ar eu contractau presennol. Byddai'r cynnig hwn yn arwain at gynyddu cyfleoedd cyflogaeth yn yr ysgol am y byddai niferoedd disgyblion ychwanegol yn arwain at dwf mewn lefelau staffio yn y dyfodol. Os bydd datblygiad newydd yr ysgol yn digwydd, byddai angen i'r corff llywodraethu a'r pennaeth ystyried cynnydd yn y strwythur staffio ar gyfer y niferoedd ychwanegol o ddisgyblion. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i staffio yn destun ymgynghoriad llawn gyda staff a'r undebau llafur perthnasol lle bo angen.

## 3.10. TRAFNIDIAETH A THREFNIADAU TEITHIO I DDYSGWYR

Mae goblygiadau traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried yn rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth fydd angen ei gyflawni er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu pe byddai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu. Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i ac o ysgolion.

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Bro Morgannwg i ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf. Oherwydd bod yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar ei safle gwreiddiol, ni fydd y cynnig

hwn yn darparu unrhyw newidiadau ac felly ni fydd unrhyw effaith ar drafnidiaeth i ddisgyblion.

# 4. YSTYRIAETHAU ERAILL

## 4.1. MANTEISION POSIBL Y CYNNIG HWN O'I GYMHARU Â'R STATUS QUO

Byddai ehangu'r ysgol ac adleoli i gornel dde-orllewinol tir gwreiddiol yr ysgol yn;

- Galluogi'r ysgol i wella ymhellach wrth sicrhau darpariaethau priodol ar gyfer poblogaeth gynyddol o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu ateb y galw am leoedd yn y dyfodol.
- Darparu canolfan adnoddau arbennig (CAA) i hwyluso cymorth ychwanegol i ddisgyblion.
- Cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai’n gallu addasu i newid ac yn herio a chynorthwyo disgyblion i gyflawni eu potensial yn llawn.
- Cynyddu gallu’r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â’r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Sicrhau bod y cynnig yn bodloni BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn garbon sero-net o ran gweithrediad.

## 4.2. ANFANTEISION POSIBL Y CYNNIG HWN O'I GYMHARU Â'R STATUS QUO

- Gellir tarfu ar reoli staff ac adnoddau wrth adeiladu adeilad newydd yr ysgol
- Mae potensial i darfu ar ddisgyblion a staff wrth iddynt bontio a dod yn gyfarwydd â'u hamgylchedd newydd.
- Mae potensial i darfu ar ddisgyblion yn ystod y gwaith o adeiladu adeilad newydd.

**Risgiau posibl y cynnig hwn a mesurau i liniaru’r risgiau a nodwyd.**

Nod y Cyngor yw sicrhau 85% o'r cyllid ar gyfer y cynnig gan Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn amodol ar gymeradwyo achos busnes a gaiff ei gyflwyno. Bydd gweddill yr arian ar gyfer adeilad newydd yr ysgol yn cael ei ariannu gan y Cyngor.

Hyd nes y bydd cyllid ar gyfer y prosiect wedi'i gymeradwyo mae perygl i'r prosiect. Er mwyn lliniaru'r risg sy'n gysylltiedig ag ariannu, bydd y Cyngor yn cyflwyno achos busnes cadarn ar gyfer cyllid Llywodraeth Cymru gan weithio'n agos gydag adrannau perthnasol y Cyngor a chydweithwyr Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, bydd cyllid mewnol y Cyngor yn destun

proses cais cyfalaf ac mae angen iddo gael ei gefnogi gan ddogfen gais gadarn sy'n cael ei sbarduno gan dystiolaeth i sicrhau cyllid.

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer pob prosiect arall ym Mand B y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

## 4.3. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses ymgynghori.

Proses sy'n astudio polisi neu gynllun yw Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG), i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu'n anffafriol yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion sydd wedi eu gwarchod fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Caiff yr asesiad ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen.

## 4.4. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal i bennu unrhyw effeithiau y byddai'r cynnig hwn yn ei gael ar y gymuned leol. Cafodd y cynnig ei asesu ar draws nifer o fesurau.

Mae'r asesiad effaith yn nodi y byddai'r cynnig yn cael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 2 o'r 8 mesur a aseswyd. Byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol mewn 6 o'r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r ysgol i barhau i fod yn llwyddiannus tra'n cynnig addysg i fwy o ddisgyblion. Byddai'n cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai'n gallu addasu i newid, tra'n herio ac yn cefnogi plant i gyflawni eu llawn potensial.

Byddai'r cynnig yn galluogi'r gymuned i barhau i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol ac i wneud hynny fwyfwy, drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau ar gyfer disgyblion y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Cynigir y bydd o leiaf pob cyfleuster presennol ar gyfer rhieni disgyblion a'r gymuned yn parhau os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen.

Casgliad yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw y byddai'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd ysgol yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn diwallu anghenion y gymuned ehangach yn well, i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd ysgol. Gellir gweld yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn llawn drwy'r wefan ymgynghoriad.

## 4.5. CYFRANIADAU I LESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i ni feddwl am effaith hirdymor ein penderfyniadau, gweithio’n well gyda phobl, cymunedau a’n gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

Er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un diben, mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod Llesiant ar waith a phum ffordd o weithio sy'n gorfod llywio prosesau gwneud penderfyniadau cyrff cyhoeddus.

Arfarnwyd y cynnig o ran sut mae'n cyfrannu at gyflawni dyheadau'r Ddeddf, y nodau llesiant, a'r ffyrdd o weithio. Nid yw hyn yn ffurfio rhan o'r broses ymgynghori statudol ond fe'i hystyriwyd yn fuddiol i gyflawni ysbryd y Ddeddf.

## 4.6. DEWISIADAU AMGEN ERAILL A YSTYRIWYD

### OPSIWN 1: YSTYRIED SYMUD YR YSGOL I SAFLE ARALL

Pam gwrthodwyd yr opsiwn hwn?

Byddai Sant Richard Gwyn yn symud i safle arall gyda datblygiad ysgol newydd.

Nodwyd nad y model hwn oedd yr opsiwn a ffefrir am y rhesymau canlynol:

- Aseswyd yr ardal ac nid oedd unrhyw safleoedd ar gael yn yr ardal y gellid bod wedi'u hystyried.

### OPSIWN 2: AILFODELU’R ADEILAD PRESENNOL

Pam gwrthodwyd yr opsiwn hwn?

Byddai Sant Richard Gwyn yn aros yn yr un lleoliad ar y safle gyda'r ysgol yn cael ei moderneiddio.

Nodwyd nad y model hwn oedd yr opsiwn a ffefrir am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â materion presennol y safle yn Sant Richard Gwyn lle mae'r ysgol wedi'i lleoli ar hyn o bryd.
- Byddai'r opsiwn hwn yn rhy ddrud ac ni fyddai'n darparu gwerth am arian.
- Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r mater capasiti a'r rhagamcanion dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

### OPSIWN 3: CYNNAL Y STATWS QUO

Pam gwrthodwyd yr opsiwn hwn?

Byddai Sant Richard Gwyn yn aros yr un fath heb unrhyw newidiadau.

Nodwyd nad y model hwn oedd yr opsiwn a ffefrir am y rhesymau canlynol:

- Nid yw'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â materion presennol y safle yn Sant Richard Gwyn lle mae'r ysgol wedi'i lleoli ar hyn o bryd.
- Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r mater capasiti a'r rhagamcanion dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.
- Ni fyddai hyn yn mynd i'r afael â chyflwr yr adeilad; nid yw'r adeilad presennol yn addas at y diben.

# 5. OPSIWN 2: AILFODELU'R BROSES YMGYNGHORI STATUDOL

**Tabl 6: Amlinelliad o'r broses ymgynghori statudol**

| Camau | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cam 1: Datblygu cynnig** | Bydd cynnig cychwynnol yn cael ei ddatblygu a'i ystyried. Mae Adran 2 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn amlinellu pryd mae angen y weithdrefn statudol. |
| **Cam 2: Ystyriaeth y Corff Llywodraethol** | Ystyriaeth o'r cynnig gan Gorff Llywodraethu Sant Richard Gwyn ac Archesgobaeth Caerdydd. |
| **Cam 3: Ymgynghoriad** | Rhaid cyhoeddi dogfen ymgynghori ar wefan yr ysgol. Rhaid cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar ddiwrnod ysgol a rhaid rhoi o leiaf 42 o ddiwrnodau i ymgyngoreion ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Mae'n rhaid i randdeiliaid a nodwyd yn adran 3.4 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) gael eu hysbysu drwy lythyr/e-bost. |
| **Cam 4: Adroddiad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad** | Bydd adborth a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael ei ystyried a bydd adroddiad ymateb yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'w ystyried. |
| **Cam 5: Ystyriaeth y Corff Llywodraethol** | Bydd y Corff Llywodraethu ac Archesgobaeth Caerdydd yn hysbysu Cyngor Bro Morgannwg ar ôl ystyried yr adroddiad ymateb i'r ymgynghoriad a phenderfynu a ddylid cyhoeddi'r adroddiad a chymeradwyo cyhoeddi'r cynnig ar ffurf hysbysiad statudol. |
| **Cam 6: Hysbysiad statudol** | Mae'n rhaid cyhoeddi'r hysbysiad statudol ar ddiwrnod ysgol ac fel yr amlinellir yn adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). |

| Camau | Disgrifiad |
|---|---|
| | |
| **Cam 7: Cyfnod Gwrthwynebu** | Mae unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig yn cael cyfle i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon i'r cynigiwr cyn pen cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau o'r dyddiad pan gyhoeddwyd yr hysbysiad. |
| **Cam 8: Adroddiad gwrthwynebu** | O dan adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 pan fydd gwrthwynebiadau wedi eu derbyn, mae'n **rhaid** i gynigwyr gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol ac ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiadau hynny ("yr Adroddiad Gwrthwynebu"). |
| **Cam 9: Ystyriaeth y Cabinet** | Pan dderbynnir gwrthwynebiadau, mae'r Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebu ar gyfer penderfyniad terfynol ar y cynnig. |
| **Cam 10: Llythyr penderfyniad** | Bydd cadarnhad o'r penderfyniad ac argaeledd yr adroddiad gwrthwynebiadau yn cael ei roi i randdeiliaid. |

## 5.1. DYDDIADAU ALLWEDDOL

Caiff adborth o'r ymgynghoriad addysg hwn ei gasglu a'i grynhoi a bydd adroddiad yn gael ei gyhoeddi. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor. Hefyd gellir gwneud cais am gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Mae rhagor o gamau y bydd rhaid i'r corff llywodraethu eu cyflawni cyn gwneud penderfyniad terfynol. Rhestrir y camau hyn isod:

**Tabl 7: Dyddiadau allweddol y broses**

| Proses Statudol | Amserlen |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen ymgynghori | **5 Medi 2023** |
| Dyddiad cau i gyflwyno barn ar y cynigion | **17 Hydref 2023** |

| Proses Statudol | Amserlen |
|---|---|
| Yr adroddiad ymgynghori wedi ei ystyried gan y corff llywodraethu ac Archesgobaeth Caerdydd a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol a'r Cyngor. | **16 Tachwedd 2023** |
| Cyflwyno hysbysiad statudol i wahodd gwrthwynebiadau ysgrifenedig ffurfiol | **1 Rhagfyr 2023** |
| Diwedd Cyfnod yr Hysbysiad Statudol | **29 Rhagfyr 2023** |
| Penderfyniad gan y Cabinet lle derbynnir gwrthwynebiadau gydag adroddiad gwrthwynebu. | **Ionawr 2024** |
| Hysbysu'r penderfyniad | **Ionawr 2024** |
| Mwy o gapasiti i'w gyflwyno o | **Medi 2025** |

**Mae'n bosibl y bydd yr amserlen arfaethedig yn newid.**

## 6. CWESTIYNAU CYFFREDIN

***Beth yw'r amserlen arfaethedig y datblygiad?***

Y bwriad yw y byddai'r gwaith o adeiladu'r ysgol newydd yn dechrau erbyn mis Ionawr 2024 ac yn cael ei gwblhau erbyn mis Medi 2025.

***Pryd byddai staff a disgyblion yn trosglwyddo i adeilad newydd yr ysgol?***

Y cynnig yw y byddai'r ysgol newydd yn weithredol erbyn mis Medi 2025.

***A fyddai pennaeth newydd?***

Byddai pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol ar y dyddiad symud yn trosglwyddo'n awtomatig i'r safle newydd heb unrhyw newid i delerau ac amodau eu cyflogaeth.

***Sut byddai goblygiadau trafnidiaeth posibl yn cael eu hystyried fel rhan o'r cynnig hwn?***

Byddai tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y Cyngor yn gyfrifol am y broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi a byddai asesiad trafnidiaeth llawn yn cael ei wneud fel rhan o'r broses ddylunio. Byddai unrhyw oblygiadau a nodwyd yn cael eu hystyried wrth ddylunio'r adeilad newydd. Byddai'r contractwr yn cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer yr adeilad newydd.

***Pwy fyddai'n rheoli'r gwaith o adeiladu adeilad newydd yr ysgol?***

Byddai Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y Cyngor yn gyfrifol am reoli'r broses adeiladu. Byddai contractwr yn cael ei benodi gan ddefnyddio fframwaith SEWSCAP. Mae SEWSCAP yn fframwaith adeiladu a ddefnyddir gan 16 awdurdod lleol ac mae'n darparu Contractwyr cymwys a phrofiadol i gyflawni'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, ac adeiladau cyhoeddus eraill, sy'n ymwneud â phrosiectau adeiladu ac adnewyddu newydd dros £1.5 miliwn. Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei dyfeisio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael gwybod am y cynnydd a'u bod yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Bydd cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr ysgol, y cyngor a'r contractwr.

***A fyddai'r gwaith o adeiladu'r ysgol newydd yn tarfu ar staff, disgyblion a thrigolion lleol?***

Cynigir adeiladu adeilad newydd yr ysgol ar y safle presennol, fyddai'n arwain at rywfaint o darfu ar staff, disgyblion a phreswylwyr lleol yn ystod y cyfnod adeiladu. Byddai'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i gyfyngu ar yr aflonyddwch trwy gyfyngu ar amseroedd dosbarthu a chydweithio gyda rheolwr y safle.

***Sut byddem yn cymryd rhan drwy gydol y broses ddylunio?***

Byddai rhaglen ymgysylltu'n cael ei dyfeisio i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cael gwybod am y cynnydd a'u bod yn gallu bwydo i mewn i'r broses ddylunio. Bydd cyfarfodydd rheolaidd

rhwng y Cyngor, y contractwr a’r ysgol. Gellir anfon unrhyw adborth neu feddyliau at y tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn: **Sustainablecommunitiesforlearning@valeofglamorgan.go.uk**;

Bydd unrhyw Gwestiynau Cyffredin pellach a ofynnir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael eu hychwanegu at dudalen we yr ymgynghoriad.

# 7. CYNNWYS RHANDDEILIAID AC YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Mae ein proses ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel y’u nodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Gofynnir i amrywiaeth o unigolion a grwpiau am eu barn am y cynigion hyn.

Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, mae’n rhaid i’r Cyngor sicrhau bod nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau â diddordeb fynegi eu barn a’u safbwyntiau ar y cynigion hysbys i ystyried y safbwyntiau hyn fel rhan o’r broses o wneud penderfyniadau.

Rydym yn ymgynghori â'r grwpiau canlynol:

**Tabl 8: Rhestr o’r grwpiau i ymgynghori â nhw fel rhan o'r broses ymgynghori**

| | |
|---|---|
| Staff (addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn | Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol |
| Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant yn Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn | Cyngor Tref y Barri |
| Teuluoedd yn Gyntaf / Bwrdd Rheoli Dechrau'n Deg | Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Bro Morgannwg |
| Aelodau Cynulliad (ACau) / Aelodau Seneddol (ASau) / Aelodau Cynulliad Rhanbarthol | Cynghorwyr lleol |
| Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG) | Comisiynydd y Gymraeg |
| Estyn | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos ym Mro Morgannwg |
| Gweinidogion Llywodraeth Cymru | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De |
| Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Lleol | Undebau Llafur |
| Adran Drafnidiaeth y Cyngor | Cyfarwyddwyr Addysg yr Holl Awdurdodau Cyfagos |

## 7.1. CYNNWYS PLANT YN YR YMGYNGHORIAD

Wrth gyflwyno cynigion, mae'n bwysig bod Cynghorau’n gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a, lle y bo'n bosibl, y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu'r ysgol.  Mae’r corff llywodraethu ac Archesgobaeth Caerdydd yn credu’n gryf y dylid rhoi cyfle i ddisgyblion Ysgol Gatholig Sant Richard Gwyn fynegi eu barn ynghylch y cynnig hwn.

Y bwriad yw cynnal gweithdy ymgynghori gyda disgyblion Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn i gael eu barn am y cynnig. Caiff y wybodaeth a gesglir yn y sesiynau hyn ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol.

## 7.2. CYNNWYS RHIENI, LLYWODRAETHWYR A STAFF - SUT Y GALLWCH DDARGANFOD MWY A RHOI EICH BARN

Wrth gyflwyno cynigion, mae'n bwysig gwneud trefniadau addas i ymgynghori â disgyblion a, lle y bo'n bosibl, y disgyblion hynny sy'n debygol o fynychu'r ysgol.

Cynhelir sesiynau ymgysylltu gyda disgyblion yn Sant Richard Gwyn i gasglu eu barn am y cynnig. Caiff y wybodaeth a gesglir yn y sesiynau hyn ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol. Caiff yr adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Mae'r corff llywodraethu hefyd yn bwriadu cynnal sesiynau galw heibio ar gyfer yr holl randdeiliaid fel rhan o'r broses. Gwahoddir rhieni/gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion yn yr ysgol a'r gymuned i fynychu'r sesiwn galw heibio lle gallwch ofyn unrhyw gwestiynau am y cynnig.

Mae gan staff a chorff llywodraethu'r ysgol sesiynau ymgysylltu hefyd wedi'u trefnu i drafod y cynnig yn fanylach.

Gellir dod o hyd i unrhyw ddiweddariadau hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ffrwd Twitter yr Ysgol a Chyngor Bro Morgannwg a thrwy dudalen Facebook Cyngor Bro Morgannwg.

Mae’n hanfodol bod rhanddeiliaid yn llenwi ffurflen ymgynghoriad, oherwydd gallwn ond dderbyn safbwyntiau yn ysgrifenedig.

Ceir manylion dyddiadau cyfarfodydd yr ymgynghoriad isod:

**Tabl 9: Digwyddiadau Ymgysylltu yr Ymgynghoriad:**

| Natur yr ymgynghoriad | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Sesiynau ymgysylltu â disgyblion o'r ysgolion bwydo | 12:40 – 13:40 25 Medi 2023 | Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Argae Lane, Y Barri CF63 1BL |
| Sesiynau ymgysylltu â disgyblion gyda'r ysgol bresennol | 2:20 – 3:20 25 Medi 2023. | Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Argae Lane, Y Barri CF63 1BL |
| Cyfarfod staff | 3:30 – 4:30 25 Medi 2023. | Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Argae Lane, Y Barri CF63 1BL |
| Sesiwn galw heibio rhieni a'r gymuned | 4:45 – 5:45 25 Medi 2023. | Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Argae Lane, Y Barri CF63 1BL |
| Cyfarfod llywodraethwyr | 6:00 – 7:00 25 Medi 2023. | Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, Argae Lane, Y Barri CF63 1BL |

## 7.3. SUT MAE CAEL MWY O WYBODAETH A RHOI EICH BARN

### CANFOD MWY

Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon a mwy o wybodaeth ategol ar dudalen Ymgynghoriadau Ysgolion Bro Morgannwg.

Gellir dod o hyd i unrhyw ddiweddariadau hefyd ar y cyfryngau cymdeithasol drwy ffrwd Twitter Cyngor Bro Morgannwg a thrwy dudalen Facebook Cyngor Bro Morgannwg.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar **01446 709828** neu **sustainablecommunitiesforlearning@valeofglamorgan.gov.uk** Am fwy o wybodaeth am y cynnig.

### RHOWCH EICH BARN I NI

Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o **5 Medi hyd at 17 Hydref 2023.**Gallwch ymateb i'n cynigion ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn. Mae eich barn yn bwysig i ni, ac mae nifer o ffyrdd y gallwch ei rhannu â ni

Gallwch:

- Gwblhau ffurflen ymateb ar-lein yn: https://forms.office.com/e/eMQppq4G8f

  Neu

- Gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar ddiwedd y ddogfen hon a'i hanfon i:

  Ailddatblygu ac ehangu Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn

  Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid

  Cyngor Bro Morgannwg

  Y Swyddfeydd Dinesig

  Heol Holltwn

  Y Barri

  CF63 4RU

Dylai'r holl sylwadau a gyflwynir yn ysgrifenedig gynnwys enw llawn a chod post y person sy'n gwneud y sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 17 Hydref 2023. Yn anffodus, ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Bydd yr holl ymatebion a roddir i ni yn cael eu hystyried gan y Corff Llywodraethu cyn iddo benderfynu a ddylid cyhoeddi hysbysiad statudol am y cynigion ai peidio.

Ni fydd ymatebion a dderbynnir gan ymgyngoreion sy'n gwrthwynebu'r cynigion hyn, er eu bod yn cael eu hystyried fel rhan o'r adroddiad ymgynghori, yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Byddai gwrthwynebiad statudol yn rhan o'r cyfnod rhybudd statudol. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu'r hysbysiad ar gam nesaf y broses, os bydd yn mynd yn ei flaen, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Mae'r dyddiadau allweddol hyn wedi'u hamlinellu o dan Adran 5.

# 8. FFURFLEN YMATEB I YMGYNGHORIAD

Mae eich barn chi'n bwysig.  Rhannwch eich barn gyda ni trwy wneud un o'r canlynol:

- **cwblhau'r ffurflen ymateb** ar-lein yn:

https://forms.office.com/e/eMQppq4G8f

neu

- ateb cwestiynau'r ymgynghoriad ac **ychwanegu eich sylwadau ar y ffurflen hon**

---

Dychwelwch y ffurflen i'r cyfeiriad canlynol:

Ailddatblygu ac ehangu Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn

Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid

Cyngor Bro Morgannwg

Y Swyddfeydd Dinesig

Heol Holltwn

Y Barri

CF63 4RU

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 17 Hydref 2023. Yn anffodus, ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Ni chaiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu hystyried fel gwrthwynebiadau i'r cynigion, er bydd y corff llywodraethu a'r Cyngor yn eu hystyried wrth wneud ei benderfyniad. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cyflwyno gwrthwynebiadau.

Nodwch y dylai'r holl sylwadau gynnwys enw llawn a chod post y person sy'n gwneud y sylwadau.

Gellir gwneud cais am unrhyw ymatebion a dderbyniwyd o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a gallai fod rhaid gwneud y rhain yn gyhoeddus. Fodd bynnag, byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n datgelu unigolyn, megis enw, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post yn cael ei dileu.

| | |
|---|---|
| **Eich Enw Llawn:** | |
| **Cod Post:** | |

| **Dwedwch wrthym a ydych chi'n ymateb fel** (ticiwch bob un sy'n berthnasol): | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhiant neu Warcheidwad* | | Nain/Taid* | | Disgybl* | |
| Aelod o staff** | | Llywodraethwr* | | Preswylydd Lleol | |
| Arall (rhowch fanylion) | | | | | |

| | |
|---|---|
| ***A fyddech cystal â chadarnhau pa ysgol(ion) rydych yn gysylltiedig â hi/nhw?** | |

| **1. A Ydych yn cefnogi'r cynnig i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn a chynyddy ei gapasiti o 813 lle i 1,050 o leoedd o fis Medi 2025?** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | | Dim barn y naill ffordd na'r llall | |
| **Esboniwch pam:** | | | | | |
| | | | | | |

| | |
|---|---|
| **2.** | **Os hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill i'r cynigion, nodwch y rhain isod.** |
| | |

| | |
|---|---|
| **3.** | **Unrhyw sylwadau eraill?** |
| | |

Diolch i chi am eich sylwadau.

Dychwelwch y ffurflen hon i Gyngor Bro Morgannwg erbyn **17 Hydref 2023** fan bellaf.

**Os hoffech gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr ymgynghoriad ar e-bost neu drwy'r post, nodwch y manylion perthnasol isod.**

| | |
|---|---|
| **Hoffwn gael fy hysbysu drwy:** (dilëwch fel y bo'n briodol) | E-bost / Post |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Cyfeiriad post:** | |

## Nodiadau

## 9. FFURFLEN MONITRO CYDRADDOLDEB BRO MORGANNWG

| **Rhywedd a Hunaniaeth Rhywedd** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Beth yw eich rhywedd? | | | ☐ Benyw<br>☐ Gwrywaidd | | |
| Ar eich genedigaeth, sut cawsoch eich disgrifio? | | | ☐ Benyw<br>☐ Gwrywaidd<br>☐ Rhyngrywiol<br>☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud | | |
| **Anabledd** | | | | | |
| A oes cyfyngiadau ar eich gweithgareddau bob dydd oherwydd cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, salwch neu anabledd sydd wedi para, neu y disgwylir iddo bara, 12 mis neu fwy? | | | ☐ Oes - cyfyngiadau mawr<br>☐ Oes - rhywfaint o gyfyngiadau<br>☐ Nac oes<br>☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud | | |
| **Oedran** | | | | | |
| Beth yw eich dyddiad geni? | | | | | |
| **Hunaniaeth Genedlaethol** | | | | | |
| **Hunaniaeth Genedlaethol – Sut byddech chi'n disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?** | | | | | |
| ☐ o Gymru | ☐ o Loegr | ☐ o'r Alban | ☐ o Ogledd Iwerddon | ☐ Prydeinig | |
| ☐ Arall (nodwch) | | | ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud | | |
| **Grŵp Ethnig** | | | | | |
| **Ethnigrwydd – sut fyddech chi'n disgrifio eich grŵp ethnig?** | | | | | |

| **Gwyn** | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ o Gymru/Lloegr/yr Alban/Gogledd Iwerddon/Prydeinig | ☐ Gwyddelig | | |
| ☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | ☐ Unrhyw gefndir gwyn arall (nodwch): | | |
| **Grwpiau cymysg/aml-ethnig** | | | |
| ☐ Gwyn a Du Caribïaidd | ☐ Gwyn a Du Affricanaidd | ☐ Gwyn ac Asiaidd | |
| ☐ Unrhyw gefndir cymysg/aml-ethnig arall (nodwch): | | | |
| **Asiaidd/Asiaidd Prydeinig** | | | |
| ☐ Indiaidd | ☐ Pacistanaidd | ☐ Bangladeshaidd | ☐ Tsieineaidd |
| ☐ Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch): | | | |
| **Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig** | | | |
| ☐ Affricanaidd | ☐ Caribïaidd | | |
| ☐ Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall (nodwch): | | | |
| **Grŵp ethnig arall** | | | |
| ☐ Arabaidd | | | |
| ☐ Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch): | | | |
| ☐ Mae’n well gennyf beidio â dweud | | | |

| **Y Gymraeg** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiwch eich sgiliau Cymraeg trwy dicio’r blwch/blychau perthnasol isod:** | | | | |
| | **Deall** | **Siarad** | **Darllen** | **Ysgrifennu** |
| Dim | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sylfaenol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cymwys | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Da | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhugl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Hunaniaeth Rywiol**

**Pa un neu rai o'r opsiynau hyn sy'n disgrifio orau'r ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi'ch hun?**

| | | |
|---|---|---|
| ☐ Heterorywiol / syth | ☐ Hoyw neu lesbiaidd | ☐ Deurywiol |
| ☐ Arall | ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud | |

**Crefydd**

**Beth yw eich crefydd?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| ☐ Dim crefydd | ☐ Cristion (pob enwad) | | ☐ Bwdhydd |
| ☐ Hindŵ | ☐ Iddew | ☐ Mwslim | ☐ Sîc |
| ☐ Unrhyw grefydd arall (nodwch): | | ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud | |

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

| | |
|---|---|
| Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd neu wedi bod yn feichiog yn y flwyddyn ddiwethaf? | ☐ Ydw<br>☐ Nac ydw<br>☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud |
| Ydych chi wedi cymryd cyfnod mamolaeth yn y flwyddyn ddiwethaf? | ☐ Ydw<br>☐ Nac ydw<br>☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud |

**Priodas a Phartneriaeth Sifil**

| | |
|---|---|
| Beth yw eich statws priodasol neu bartneriaeth sifil gyfreithiol? | ☐ Sengl - hynny yw, heb briodi erioed a heb gofrestru mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw erioed |

| | |
|---|---|
| | ☐ Priod ac yn byw gyda gŵr/gwraig<br><br>☐ Wedi gwahanu ond dal yn briod yn gyfreithiol<br><br>☐ Wedi ysgaru<br><br>☐ Gweddw<br><br>☐ Mewn partneriaeth sifil gofrestredig o'r un rhyw ac yn byw gyda'ch partner<br><br>☐ Wedi gwahanu ond yn dal mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw yn gyfreithiol<br><br>☐ Mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw gynt sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol<br><br>☐ Partner sy'n fyw o bartneriaeth sifil o'r un rhyw<br><br>☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud |